

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd.

“Sicrhau chwarae teg: Adroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig”.

Argymhelliad 1

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dull cenedlaethol newydd o ymwneud â chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig. Dylai'r dull hwn ddwyn ynghyd y gwaith presennol ac arfer da sydd eisoes yn digwydd yn ogystal â chyflwyno syniadau newydd i gyfrannu at y dull hwn. Dylai hyn gynnwys targedau mesuradwy, a fyddai'n cael eu gosod ar gyfer cyfnod penodol o bum mlynedd, i sicrhau bod cydraddoldeb o ran mynediad at gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol

Ymateb: Gwrthod

Fe wnaeth Chwaraeon Cymru helpu'r sector i baratoi gweledigaeth genedlaethol ac aeth ati i ddatblygu ei strategaeth ei hun ar gyfer chwaraeon yng Nghymru yn unol â'r weledigaeth honno, sy'n cael ei chefnogi gan gyrff cyhoeddus eraill, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Nod Gweledigaeth Chwaraeon Cymru ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yw creu cenedl egniol lle mae pawb yn gallu mwynhau chwaraeon drwy gydol eu hoes. Cafodd y weledigaeth honno ei datblygu ar ôl i ymgynghoriad eang gael ei chynnal o dan arweiniad Chwaraeon Cymru yn dilyn yr adolygiad annibynnol o Chwaraeon Cymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017. Un o'r meysydd allweddol sy'n cael blaenoriaeth yng ngwaith presennol Chwaraeon Cymru yw hoelio sylw ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan fesur perfformiad yn hynny o beth yn unol â dangosyddion allweddol. Er nad oes angen mabwysiadu dull cwbl newydd o weithredu, byddwn yn mynd ati'n barhaus i ailedrych ar y dulliau gweithredu presennol er mwyn sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl mewn ardaloedd difreintiedig yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Byddwn yn cynnal Uwchgynhadledd Chwaraeon ym mis Rhagfyr, a fydd yn cael ei harwain ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru, ac a fydd yn dod â'r sector cyfan ynghyd. Rhan allweddol o waith yr Uwchgynhadledd fydd canolbwyntio ar wella cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig. Un o nodau'r Uwchgynhadledd hon fydd dysgu mwy am yr arferion gorau ac edrych ar gyfleoedd ychwanegol i ehangu'n gwaith yn y maes hwn.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 2

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid prosiect ychwanegol ar fyrder i Chwaraeon Cymru i'w alluogi i wneud gwaith i nodi a

darparu cyfleoedd sy'n galluogi pobl o grwpiau difreintiedig i elwa ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllideb flynyddol i Chwaraeon Cymru – £21.6 miliwn o gyllid refeniw ac £8 miliwn o gyllid cyfalaf yn 2022-23 – er mwyn iddo gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y llythyr cylch gwaith ar gyfer tymor llywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae cynnig cyfle cyfartal i fanteisio ar gyfleoedd ym maes chwaraeon yn un o'r ymrwymadau allweddol yn ein Rhaglen Lywodraethu ac mae gwella mynediad a chyfranogiad a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau yn flaenoriaethau yn y llythyr cylch gwaith. Mae holl raglenni craidd Chwaraeon Cymru yn canolbwyntio ar wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac mae'r nod hwnnw cael ei ategu drwy ddulliau mesur perfformiad.

Ochr yn ochr â'r cyllid craidd, rydym hefyd yn sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer prosiectau er mwyn cefnogi'r ymrwymadau ehangach yn y Rhaglen Lywodraethu i wella mynediad a chynhwysiant. Un enghraifft yw'r cynllun grant o dan Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sy'n ceisio gwella cyfranogiad a chynhwysiant ymhlith cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyllido'r gwaith o agor cyfleusterau ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn yr ardaloedd hynny. Dylid gwneud hyn fel a ganlyn:

- i. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu canfyddiadau'r rhaglenni peilot gwahanol sy'n cael eu cynnal ynghylch agor ysgolion i'r gymuned ehangach eu defnyddio, ac adrodd ar ei chanfyddiadau mewn dogfen a fydd yn cael ei chyhoeddi ddim hwyrach na mis Gorffennaf 2023.**
- ii. Gweithio gydag awdurdodau lleol i gynnal archwiliad Cymru gyfan o gyfleusterau chwaraeon, hamdden a gweithgarwch corfforol mewn ysgolion i nodi beth sy'n bodoli a beth yw cyflwr y cyfleusterau hyn. Dylai hyn gynnwys ystyried pa mor hygyrch yw'r cyfleusterau hyn o ran dull teithio, gan gynnwys sylw arbennig i leoliad ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.**
- iii. Ar ôl cwblhau'r archwiliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ardaloedd difreintiedig sydd angen cymorth ar fyrder i sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol a darparu'r cyllid priodol i alluogi hynny i ddigwydd.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Mae gwneud defnydd effeithiol o gyfleusterau addysgol ar gyfer ein plant a'r gymuned leol wastad wedi bod yn un o'r nodau allweddol sydd wrth wraidd buddsoddiad mewn addysg drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Rydym eisoes yn darparu cyllid i helpu ysgolion i weithredu a datblygu fel Ysgolion Bro, gan estyn allan i feithrin cysylltiadau â theuluoedd a gweithio gyda'r gymuned ehangach i gefnogi pob disgybl, yn enwedig y rheini sydd dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi cyhoeddi y bydd £24.5 miliwn ar gael yn 2022-23 i gefnogi'r gwaith hwn, ac mae'r swm hwnnw'n cynnwys £20 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf er mwyn i ysgolion fedru mynd ati i ddatblygu'n fwy o asedau cymunedol. Rydym hefyd wrthi'n datblygu cyfres o ganllawiau er mwyn helpu ysgolion, yr awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol i roi'r ysgolion bro ar waith. Bydd y canllawiau hynny'n cael eu llywio gan ganfyddiadau'r adolygiad i'r cynlluniau peilot unwaith y bydd y canlyniadau hynny ar gael, er mwyn cynyddu'r defnydd o ysgolion gan gymunedau.

Mae Chwaraeon Cymru wedi cynnal adolygiad polisi i'r arferion gorau wrth agor cyfleusterau ysgolion ar gyfer gweithgareddau corfforol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Bydd yr adolygiad hwnnw ar gael cyn bo hir. Mae Chwaraeon Cymru hefyd wedi cynnal arolwg cipolwg o gyfleusterau ar draws awdurdodau lleol gwahanol, gan amlinellu'n fras y cyfleusterau cysylltiedig ag ysgolion sydd ar gael yn yr ardaloedd hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu arolwg sylfaenol o ysgolion hefyd, ac ynddo gwestiynau am y defnydd a wneir o gyfleusterau, a bydd yr arolwg hwnnw ar gael yn fuan.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 4

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyllido'r gwaith o agor cyfleusterau cymunedol mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn yr ardaloedd hynny. Dylid gwneud hyn fel a ganlyn:

- i. Gweithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion, darparwyr cyfleusterau hamdden a chlybiau chwaraeon i gynnal archwiliad Cymru gyfan o'r cyfleusterau hyn i nodi beth sy'n bodoli a beth yw cyflwr y cyfleusterau hyn. Dylai hyn gynnwys ystyried pa mor hygyrch yw'r cyfleusterau hyn o ran dull teithio.**
- ii. Ar ôl cwblhau'r archwiliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ardaloedd difreintiedig sydd angen cymorth ar fyrder i sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol a darparu'r cyllid priodol i alluogi hynny i ddigwydd.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Er ei fod yn fater cymhleth ac yn un sy'n dal i esblygu, byddwn yn ystyried ymhellach yr angen i archwilio'r holl gyfleusterau chwaraeon cymunedol, a pha mor ymarferol fyddai hynny, drwy drafod â phartneriaid a rhanddeiliaid.

Mae sawl ffrwd grant ar gael drwy Chwaraeon Cymru er mwyn i glybiau cymunedol gael arian ar gyfer cyfleusterau newydd ac er mwyn gwella cyfleusterau sy'n bodoli eisoes. Mae cymorth cyfalaf ar gael hefyd drwy'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol; er na fwriedir y cymorth hwnnw'n benodol ar gyfleusterau chwaraeon, gall clybiau ar lawr gwlad wneud cais pan fo defnydd ehangach gan y gymuned yn rhan o'r cais.

Goblygiadau ariannol: I'w pennu.

Argymhelliad 5

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod rhaglenni ar gyfer cyllido chwaraeon a gweithgareddau corfforol mewn ardaloedd difreintiedig yn cael eu rhoi ar gyfchoedd cyllido tymor hwy.

Ymateb: Derbyn

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi unrhyw sicrwydd am gyllidebau y tu hwnt i'r setliad cyfredol y mae'n ei gael oddi wrth Lywodraeth y DU ond bydd bob amser yn rhoi sicrwydd hirdymor pan fydd mewn sefyllfa i wneud hynny. Mae Chwaraeon Cymru a sefydliadau eraill, fel yr awdurdodau lleol, wedi cael cyllidebau tair blynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2022-23 a 2024-25. Mae hynny'n rhoi mwy o sicrwydd iddynt, mae'n eu helpu i gynllunio'n strategol ar gyfer yr hirdymor ac yn annog mwy o gydweithio rhwng sefydliadau.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 6

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu'n sylweddol y cyllid sydd ar gael ar gyfer mynd i'r afael â chyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllideb refeniw i Chwaraeon Cymru ar gyfer cyfnod o dair blynedd er mwyn iddo gyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd gennym yn llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru at Chwaraeon Cymru ar gyfer tymor y llywodraeth. Rydym hefyd wedi dyrannu cyllid cyfalaf gwerth £24 miliwn dros dair blynedd i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon. Mae hwn yn ymrwymiad allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng iechyd a chwaraeon, drwy'n strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, gan ganolbwyntio ar anghydraddoldeb o ran iechyd. Mae'n cynnwys buddsoddiad o dros £13 miliwn mewn amrywiaeth o raglenni yn ystod cyfnod y cynllun cyflawni ar gyfer 2022-24. Byddwn yn parhau i ystyried effaith y buddsoddiadau hyn wrth inni fynd ati i werthuso, a byddwn yn adolygu cyllidebau wrth inni fynd ati i bennu cyllidebau yn ystod y flwyddyn a chyllidebau blynyddol er mwyn sicrhau bod lefelau buddsoddi'n parhau'n briodol.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 7

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn comisiynu adolygiad annibynnol o effaith y dull buddsoddi newydd ar gyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig ymhen tair blynedd.

Ymateb: Derbyn.

Cafodd ffordd newydd Chwaraeon Cymru o fuddsoddi ei lansio gyntaf cyn pandemig Covid-19. Oedwyd cyn ei gweithredu'n llawn er mwyn diogelu lefelau cyllid dros gyfnod o ddwy flynedd er mwyn rhoi sefydlogrwydd i'r sector drwy gyfnod ansicr Covid. Gan fod yr Arolwg o Chwaraeon mewn Ysgolion wedi'i gynnal yn 2022, y flwyddyn ariannol hon fydd y flwyddyn olaf i'r cyllid gael ei ddiogelu ac yn 2023-24, bydd elfen derfynol y model buddsoddi, sy'n ymwneud â data, yn cael ei gweithredu. Bydd Chwaraeon Cymru yn mynd ati wedyn i weithio gyda phartneriaid i newid i'r model buddsoddi newydd, ac mae disgwyl i'r model hwnnw gael ei weithredu'n llawn yn 2025-26. Mae Chwaraeon Cymru yn bwriadu ailedrych yn rheolaidd ar y ffordd newydd hon o fuddsoddi, er mwyn sicrhau ei fod dal yn addas at ei bwrpas, yn enwedig o ran yr effaith ar gyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 8

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu cynllun peilot ar gyfer Grant Datblygu Gweithgarwch Corfforol, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot "Active Me – Kia Tū" yn Seland Newydd, er mwyn gwella mynediad i'r rhai mewn ardaloedd difreintiedig at gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid eisoes ar gyfer nifer o'r meysydd a gefnogir gan gynllun "Active Me – Kia Tū".

Mae'r ffrwd "Mynediad" sy'n rhan o Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Datblygu Disgyblion ar gael i deuluoedd â phlant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'n helpu i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r diwrnod ysgol, gan gynnwys dillad ac offer chwaraeon ar gyfer yr ysgol. Mae ar gael i deuluoedd cymwys ar gyfer plant ym mhob blwyddyn ysgol orfodol, a chynigir cyfradd o £125 (£200 ar gyfer blwyddyn 7). Mae cynnydd o £100 yn y grant hwn i bob disgybl cymwys ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23, i helpu teuluoedd i ymdopi yn ystod yr argyfwng costau byw.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i Ddisgyblion Ysgolion Cynradd yng Nghymru, gan ddechrau gyda'r plant ieuengaf oherwydd mai nhw sy'n fwy tebygol o fod yn byw mewn sefyllfa o dlodi cymharol o ran incwm. Mae hwn yn ymyriad gweddnewidiol sy'n rhoi proffil uwch i fwyta'n iach ar draws yr ysgol gyfan, sy'n sicrhau bod disgyblion yn bwyta amrywiaeth ehangach o fwyd, yn gwella

sgiliau cymdeithasol a lles yn ystod prydau bwyd, ac yn arwain at wella ymddygiad a chyrhaeddiad.

Gall pob plentyn sy'n mynychu ysgol gynradd a gynhelir gan awdurdod lleol gael brecwast am ddim yn yr ysgol, drwy'r cynllun Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd. Nod y cynllun yw darparu brecwast iach i blant cyn dechrau'r diwrnod ysgol. Mae plant sy'n cael y cyfle i fwyta brecwast iach a maethlon cyn dechrau'r diwrnod ysgol yn iachach ac yn fwy tebygol o gyflawni eu potensial addysgol llawn.

Rydym hefyd wedi sefydlu Grŵp Gweithgarwch Corfforol Cenedlaethol a fydd yn ystyried sut y gallwn gynyddu cysylltiadau a phartneriaethau trawslywodraethol er mwyn gwella darpariaeth a pholisïau a all sicrhau rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Er enghraifft, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni drwy'n rhaglen Teithio Llesol, a disgwylir i swm o fwy na £200 miliwn gael ei ddyrannu dros y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol ganlynol.

Byddwn yn cysylltu â llywodraeth Seland Newydd a Chwaraeon Seland Newydd er mwyn inni gael deall sut y maent yn gweithredu.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 9

Rydym yn argymhell bod Chwaraeon Cymru yn sicrhau bod data'r Arolwg Cenedlaethol ar Chwaraeon Ysgol yn y dyfodol ar gael mewn fformat ffynhonnell agored i ddarparu mwy o fewnwelediad er mwyn sicrhau gwell tegwch o ran mynediad at chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig.

Ymateb: Derbyn.

Argymhelliad ar gyfer Chwaraeon Cymru yw hwn. Mae Chwaraeon Cymru wedi dweud eisoes ei fod yn fwriad ganddo fwrw ymlaen â gwaith i gadw'r data mewn fformat greddfoll, rhyngweithiol, a ffynhonnell agored.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 10

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn ystyried sut gallant gasglu data ansoddol er mwyn darparu gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu cyfranogiad chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig.

Ymateb: Derbyn.

Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i gasglu ei dystiolaeth, boed yn dystiolaeth feintiol neu ansoddol, drwy weithio mewn partneriaeth er mwyn meithrin y ddealltwriaeth orau o'r problemau sy'n codi mewn perthynas â chymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig. Bydd y dystiolaeth hon yn cael sylw yn ei adroddiadau blynyddol, ond bydd hefyd yn chwarae rhan hanfodol yn y rôl strategol sydd ganddo i rannu'r arferion gorau ac i sbarduno cydweithio yn y system.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 11

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyllido arolwg llawn a rheolaidd o gyfranogiad oedolion mewn chwaraeon yng Nghymru, a Chwaraeon Cymru wedyn yn ei dreialu a'i gyflwyno.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn ariannu Arolwg Cenedlaethol Cymru ar y cyd. Bob blwyddyn ers 2016-17, mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi casglu gwybodaeth gadarn, fanwl am gyfranogiad mewn chwaraeon (ac eithrio 2020 pan benderfynwyd ar y cyd â Chwaraeon Cymru i beidio â chynnwys y cwestiynau rheolaidd ar gyfranogiad mewn chwaraeon o ystyried y cyfyngiadau a oedd ar waith oherwydd y pandemig). Mae casglu gwybodaeth drwy gyfrwng yr Arolwg Cenedlaethol yn golygu bod modd dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer chwaraeon o'u cymharu ag amrywiaeth eang o bynciau eraill sy'n cael sylw yn yr arolwg, gan gynnwys pynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd, ac amddifadedd materol. Mae dadansoddiad manwl o'r canlyniadau yn cael ei gyhoeddi'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru a chan Chwaraeon Cymru, ac mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys croes-ddadansoddi, gan edrych ar y cysylltiad rhwng cyfranogiad mewn chwaraeon ac amddifadedd materol.

Mae Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru wrthi ar hyn o bryd yn cynllunio cynnwys ychwanegol ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'r cynnwys newydd yn debygol o ymdrin â'r hyn sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan mewn chwaraeon, â gwirfoddoli, agweddau at chwaraeon a gweithgarwch corfforol, a barn am gyfleusterau chwaraeon lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Chwaraeon Cymru i ailedrych ar y cwestiynau presennol yng ngoleuni canfyddiadau'r Pwyllgor.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 12

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall ddod â gwahanol ffynonellau data sy'n ymwneud â chyfranogiad chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig ynghyd, a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd mewn un lle.

Ymateb: Derbyn.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru, sydd wedi casglu gwybodaeth gadarn yn y gorffennol am yr hyn sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn chwaraeon, am y lefelau cyfranogiad ymhlith grwpiau difreintiedig, ac am y dangosyddion tybiannol allweddol sy'n seiliedig ar gyrraedd cerrig milltir. Mae Chwaraeon Cymru yn casglu ystadegau swyddogol drwy'r Arolwg o Chwaraeon mewn Ysgolion ac mae hefyd yn casglu gwybodaeth

bwrpasol ar lefel prosiectau a thrwy arolygon tracio meintiol eraill, yn ogystal â thystiolaeth ansoddol.

Mae meithrin partneriaethau, megis yr un gyda Sefydliad Gweithgarwch Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Cymru, hefyd yn rhan o'r gwaith y mae'r corff yn ei wneud i ddod â ffynonellau data gwahanol at ei gilydd i greu un dull adrodd. Bydd y gwaith y bydd Chwaraeon Cymru yn ei wneud i ddatblygu ei ddangosfwrdd gwybodaeth hefyd o gymorth i rannu data mewn un man canolog ar-lein.

Goblygiadau ariannol: Dim.